Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol 2009-10 hyd 2011-12

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print mawr, mewn Word plaen, mewn Braille, ar CD ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun arall ei chael mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2280 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk .

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Cynnwys

1 Beth y mae CCAUC yn ei wneud – Cenhadaeth a nodau

2 Cyd-destun

3 Amcanion a Chanlyniadau Strategol;
Gweithredoedd Allweddol ar gyfer y Cyfnod Cynllunio 2009-10 hyd 2011-12:

- Ymgyrraedd yn Ehangach
- Y 'Fargen i Fyfyrwyr'
- Rhagoriaeth Ymchwil
- Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas
- Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
- Gwneud iddi Weithio – y Sector Addysg Uwch yng Nghymru
- Gwneud iddi Weithio – CCAUC

Atodiad A Hybu Gwerthoedd, Egwyddorion a Themâu Trawsbynciol y Cynulliad

Atodiad B Gweithio mewn Partneriaeth

Atodiad C Gwella Effeithlonrwydd Gweithredol, Safonau Gwasanaeth a Gofal Cwsmeriaid

Atodiad Ch Crynodeb o ddyraniadau'r gyllideb blynyddoedd ariannol 2009-10 a 2010-11 ac ymrwymiadau cyllideb y flwyddyn academaidd 2007/08

Atodiad D Llywodraethu Corfforaethol a Threfniadau Cydymffurfio

Atodiad Dd Talfyriadau

Beth mae CCAUC yn ei wneud

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a gadarnhawyd gan Ddeddf Addysg 2002, mae CCAUC yn gweinyddu'r cyllid a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a rhai cyrsiau addysg uwch a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae CCAUC yn achredu prifysgolion a cholegau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Mae gennym:

un genhadaeth

pedwar gwerth

saith nod strategol

Cenhadaeth CCAUC:

Cenhadaeth CCAUC yw hyrwyddo addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, defnyddiwn y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- **sicrhau** dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- **cynyddu** i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- **sicrhau** darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal pedwar **gwerth craidd addysg uwch**, sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein nodau strategol.

pedwar gwerth craidd:

1 Ysgolheictod a dysgu
Cynnal diwylliant sy'n gofyn am feddwl disgybledig a gonestrwydd deallusol, yn annog chwilfrydedd, yn herio syniadau sefydledig ac yn esgor ar syniadau newydd.

2 Dysgu gydol oes
Galluogi unigolion i feithrin eu galluoedd hyd eithaf eu potensial drwy gydol eu bywydau.

3 Cyfrifoldeb dinesig
Chwarae rhan bwysig mewn hybu dinasyddiaeth dda a siapio cymdeithas gynhwysol ddemocrataidd wedi'i seilio ar barch at hawliau'r unigolyn a chyfrifoldeb tuag at gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

4 Cynaliadwyedd
Gweithio i sicrhau bod y sector yn datblygu'n strwythurol mewn ffordd sy'n arwain at gyflawni'r nodau strategol, a'i fod yn parhau'n gystadleuol yn rhyngwladol.

Mae gennym saith nod strategol craidd:

1 Ymgyrraedd yn Ehangach
Sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi.

2 Y 'Fargen i Fyfyrwyr'
Sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf.

3 Ymchwil Ragorol
Sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol

4 Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas
Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.

5 Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Cynhyrchu athrawon newydd gymhwyso o ansawdd uchel.

6 Gwneud iddi Weithio: y sector AU yng Nghymru
Pwyslais cryf ar ail-gyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn AU yn ei chyfanrwydd.

7 Gwneud iddi Weithio: CCAUC
Bod yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy:

- feddu ar y gallu a'r isadeiledd angenrheidiol i weithio'n effeithiol yn fewnol a chyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru)
- bod yn ddewis deniadol fel cyflogwr.

Atgynhyrchiad o lun yn Adroddiad Blynyddol CCAUC 2007-08. Dyluniwyd gan Peter Gill & Associates.

1 Cyd-destun

Cefndir

Dyma strategaeth gorfforaethol tair blynedd CCAUC. Yn ogystal ag ailddatgan ein cenhadaeth a'n nodau, mae'n gosod y canlyniadau strategol yr ydym yn disgwyl eu gweld ar gyfer addysg uwch yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2012.

Yn gyffredinol, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd polisi a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol yn enwedig:

- Strategaeth hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, *Ymgeisio'n Uwch* (2002), sy'n gosod ei gweledigaeth o sut y bydd y sector AU yn cyfrannu at gyflawniad y rhaglen addysg a dysgu gydol oes hyd 2010
- *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru (2007)* sy'n gosod y rhaglen ar gyfer y llywodraeth yn ystod tymor y Cynulliad hyd 2011.
- *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (2008) sy'n cynnwys strategaeth sgiliau a chyflogaeth y Cynulliad, a dogfennau cysylltiedig fel *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.*

Gofynnodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i'r Athro Merfyn Jones gadeirio grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi cynnal adolygiad o genhadaeth, pwrpas a rôl addysg uwch yng Nghymru ynghyd â'r cyllid ar ei chyfer. Mae hyn yn ystyried y weledigaeth a osodwyd yn *Ymgeisio'n Uwch* a *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.* Mae'r adolygiad yn adrodd ar yr un pryd ag y mae'r cyfnod strategaeth hwn yn cychwyn, a bydd yn arwain at strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y sector addysg uwch a fydd yn disodli *Ymgeisio'n Uwch*. Tra bo *Ymgeisio'n Uwch* yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n sbarduno gweithgareddau CCAUC yn y ddogfen hon, rydym yn bwriadu adolygu a diwygio ein strategaeth yn ystod y flwyddyn nesaf, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid, er mwyn ystyried ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adolygiad Jones.

Roedd cam cyntaf adolygiad Jones yn canolbwyntio ar gyllid myfyrwyr; un canlyniad posibl yw y bydd rhagor o adnoddau ar gael i addysg uwch. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion LICC er mwyn cynllunio ar gyfer defnydd effeithiol o adnoddau, a fydd yn cael ei ddefnyddio i fwrw ymlaen â meysydd polisi allweddol.

Y dirwasgiad economaidd yw'r ffactor mwyaf sy'n effeithio ar y sector addysg uwch ac felly ar y genhadaeth a'r nodau a nodir yn y cynllun. Bydd CCAUC yn annog SAUau i ymateb yn gadarnhaol i'r cwymp economaidd, o ran cefnogi unigolion, cymunedau a busnesau ledled Cymru mewn cynhwysiant ac uwchsgilio a hefyd yn eu rolau fel cyflogwyr lleol a rhanbarthol arwyddocaol. Lansiwyd ein Menter Cymorth Economaidd, cronfa o £2m er mwyn cefnogi mentrau i fynd i'r afael â'r cwymp economaidd, ym mis Mawrth 2009 a chaiff cynigion prosiect eu hariannu yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Hefyd, mewn ymateb i gylch gwaith y Gweinidog, byddwn yn gweithredu lle bo modd i fodloni anghenion sgiliau lefel uwch; i fynd i'r afael â phroblemau ynghylch y gadwyn

gyflenwi Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ac i wella cyflogadwyedd graddedigion.

Mae'r Cynllun hwn yn delio ag amcanion a blaenoriaethau CCAUC ar gyfer y cyfnod cynllunio ond mae eu cyflawni'n dibynnu ar gydweithrediad agos gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol, yn y sector addysg uwch a'r tu allan iddo. Felly, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cyflwyno ein cenhadaeth i hyrwyddo addysg uwch o ragoriaeth ryngwladol yng Nghymru er budd unigolion, cymdeithas a'r economi. Wrth wneud hynny, rydym yn anelu at gyfrannu at gyflawni'r amcanion a osodir yn *Ymgeisio'n Uwch*, ac i strategaethau allweddol eraill Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, sgiliau a dysgu gydol oes, cyflogaeth, datblygiad economaidd, trawsnewid addysg a hyfforddiant, a chynaladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

Heriau

Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â'r materion pwysicaf y bydd CCAUC, a'r sector AU yng Nghymru, yn eu hwynebu yn ystod y tair blynedd nesaf. Ymhlith y rhain bydd:

- gweithio gyda'r sector, a phartneriaid eraill, i wneud yr oll a allwn i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil y dirwasgiad;

- bwrw ymlaen â chanlyniadau ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adolygiad Jones, gan gynnwys y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y sector addysg uwch a fydd yn disodli *Ymgeisio'n Uwch,* gan ddatblygu fframwaith i gasglu tystiolaeth o ddarpariaeth ac effaith a gwerthuso effeithlonrwydd gwariant presennol wrth sicrhau canlyniadau;

- ailgyflunio a chydweithio: parhau i weithredu er mwyn cryfhau'r sector, gwella perfformiad a bodloni heriau'r dyfodol, yn ogystal â mynd i'r afael â pholisïau Llywodraeth y Cynulliad yn *Cymru'n Un*, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (STWFW) a'r angen am ymrwymiad ymysg y sector i'r agenda Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant;

- chwarae rôl allweddol wrth annog SAUau i weithio gyda chyflogwyr er mwyn bodloni anghenion ynghylch sgiliau a chyflogaeth lefel uwch yng Nghymru, fel y nodwyd drwy STWFW*;*

- datblygu ein fframwaith ar gyfer ymgysylltiad strategol â'r sector AU yng Nghymru a'n hymagwedd tuag at asesiad risg sefydliadol, fel ein bod yn canolbwyntio'n fwy clir ar faterion strategol allweddol sy'n wynebu sefydliadau ac ar gynaladwyedd sefydliadol hirdymor, yn ogystal ag alinio â chyflwyno polisi llywodraeth a blaenoriaethau strategol allweddol;

- gweithio gyda Llywodraethwyr i gryfhau gallu SAUau i reoli eu sefyllfaoedd yn effeithiol o dan amgylchiadau economaidd mwyfwy anwadal;

- bwrw ymlaen ag ehangu mynediad a gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach gan gynnwys y rheiny sy'n ymdrin â phynciau o bwysigrwydd ehangach yng nghyd-destun Cymru, gan roi ystyriaeth arbennig i bynciau STEM a *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru;*

- y sefyllfa ariannu cyffredinol, gan gynnwys effaith y dirwasgiad; newidiadau i ffrydiau incwm sefydliadau yn sgil trefniadau ffioedd dysgu yng Nghymru; y cyfleoedd sy'n dod yn sgil y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd; ymagweddau mwy strategol tuag at ddefnyddio cyllid creiddiol, gan gynnwys drwy gredyd a ariennir, a'n cylch gwaith i gynorthwyo datblygiad fframwaith ar gyfer ariannu sector AU cynaliadwy.

- trefniadau ariannu diwygiedig ar gyfer ymchwil, yn dilyn ymarferiad asesu adnoddau 2008, sy'n canolbwyntio ar ragoriaeth gynaliadwy, a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil sydd ar ddod a'i effaith posibl ar ganlyniadau yng Nghymru, gweithio gyda'r sector, Adran yr Economi a

Thrafnidiaeth y Cynulliad a Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (WORD) er mwyn gwella ymelwad ar ymchwil wrth gefnogi gweledigaeth *Cymru'n Un* er mwyn gwneud Cymru'n genedl gref a llewyrchus;

- cefnogi AU Cymru i gynnal rôl gystadleuol a safle cystadleuol yn system AU ehangach y DU;

- gweithio i gefnogi Bwrdd Cynllunio'r Coleg Ffederal, gan sicrhau nad yw'r cynnydd a'r momentwm presennol wrth fwrw ymlaen â fframwaith a chynllun strategol y sector i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu tanseilio;

- gweithio gyda'r ASA i weithredu trefniadau sicrhau ansawdd newydd er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr a chyflawni cyfrifoldebau statudol CCAUC, a datblygu ein hymagwedd tuag at gefnogi gwella ansawdd ymhellach;

- chwarae rôl weithredol wrth ddatblygu dimensiynau Ewropeaidd a dimensiynau rhyngwladol ehangach gwaith y sector AU yng Nghymru, yn enwedig wrth gefnogi dyheadau *Cymru'n Un* ar gyfer 'Cymru yn y Byd';

- gweithredu darpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon wedi'i hailgyflunio drwy dair canolfan ranbarthol newydd ar gyfer addysg gychwynnol athrawon;

- datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu, ar gyfer CCAUC a'r sector AU, er mwyn darparu'r enillion gwerth am arian sy'n ofynnol o dan fenter *Creu'r Cysylltiadau*'r Cynulliad.

Meysydd blaenoriaeth

Byddwn yn parhau i roi sylw i ddisgwyliad y Cynulliad y dylai CCAUC fabwysiadu
ymagwedd fwy strategol, gan gynnwys y ffordd y defnyddiwn gyllid creiddiol, cyllid
Ymgeisio'n Uwch a niferoedd o fyfyrwyr, ac ar y cyd â'n gwaith parhaus i gryfhau'r
sector AU drwy ailgyflunio a chydweithio. Yn y cyd-destun hwn, y pum maes blaenoriaethol ar gyfer gweddill cyfnod y Strategaeth Gorfforaethol fydd:

1. cyflwyno'r agenda ailgyflunio a chydweithio;

2. ehangu mynediad i Addysg Uwch, gan roi pwyslais arbennig ar fyfyrwyr rhan amser;

3. cryfhau ymhellach weithgareddau sy'n darparu rhagoriaeth ymchwil cynaliadwy ;

4. cryfhau trefn lywodraethol a rheolaeth mewn SAUau (gan gynnwys ymgysylltu'n fwy â Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC); a

5. chryfhau rôl economaidd, cymdeithasol a diwylliannol SAUau, yn enwedig
mewn perthynas â'r agenda sgiliau a chylogaeth, yng nghyd-destun yr heriau a ddaw yn sgil y dirwasgiad yn arbennig.

Hefyd, byddwn yn trafod â'r Cynulliad i benderfynu sut mae ein gwaith yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a'r fframwaith rheoli perfformiad ar draws APADGOS ac ymrwymiad *Cymru'n Un* i adolygu trefn lywodraethu cyrff y gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws ag agenda'r Llywodraeth ar gyfer gwella. Byddwn yn bwrw ymlaen â chanlyniad ein Hadolygiad Llywodraethu ein hunain, sydd i ddechrau ym mis Mai 2009, yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Byddwn yn nodi eitemau strategol a gweithrediadol y gellir eu darparu a'u mesur, a gefnogir gan gerrig milltir a dangosyddion perfformiad i'w cynnwys yn ein Strategaeth Gorfforaethol nesaf, lle y byddwn yn cyflwyno ein hamcanion a chanlyniadau strategol y tu hwnt i 2011.

Gweithgareddau allweddol

Yn ogystal â chodi i'r sialensiau uchod, byddwn hefyd yn parhau i fynd i'r afael ag ystod o faterion 'rheolaidd' pwysig, gan gynnwys:

• dyrannu'r Grant Rheolaidd bob mis Mawrth;

• gwneud taliadau prydlon i'r sefydliadau;

• monitro systemau ariannol y sefydliadau'n systematig er mwyn nodi anawsterau ariannol posibl neu wirioneddol;

• monitro a rhoi cyngor i'r sefydliadau ar:

  o drefn lywodraethol a rheolaeth dda, a threfniadau ar gyfer rheoli risg;
  o caffael cynaliadwy;
  o materion cydraddoldeb;
  o strategaethau ystadau;
  o rheoli egni.
  o datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

• dadansoddi a darparu adborth ar gynlluniau strategol a strategaethau eraill sefydliadau;

• asesu datganiadau monitro blynyddol gan sefydliadau sy'n adrodd ar gynnydd yn erbyn gwahanol fentrau CCAUC;

• cwrdd â gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Cydraddoldeb Sengl; a

• sicrhau ein bod ni'n parhau i gynnal isadeiledd ymchwil ffisegol o ansawdd uchel yng Nghymru, gan gynnwys drwy'r Strategaethau Buddsoddi Cyfalaf .

4 Amcanion a chanlyniadau strategol a gweithredoedd allweddol ar gyfer y cyfnod cynllunio 2008-09 hyd 2010-11

Ymgyrraedd yn ehangach
sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi

Dymunwn weld y sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd o fewn y sector a chyda rhannau eraill o'r gyfundrefn addysg a'r sector gwirfoddol i wella mynediad i bobl o gymunedau a grwpiau sydd â hanes o gyfranogiad isel mewn AU.

Cyd-destun

Ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y
Cynulliad sydd wedi cael ei ail-bwysleisio yn *Ymgeisio'n Uwch* ac yn *Y Wlad sy'n*
Dysgu: Gwireddu'r Weledigaeth. Mae'r CCAUC yn cydnabod bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â recriwtio myfyrwyr o gefndiroedd lle nad oes llawer o draddodiad o gymryd rhan mewn AU. Mae ein hymateb yn cynnwys darparu cyllid premiwm a chefnogaeth ariannol i strategaethau ehangu mynediad. Yn ogystal, mae rhaglen *Ymgeisio'n Uwch - Ymgyrraedd yn Ehangach* CCAUC yn cefnogi partneriaethau AU/AB rhanbarthol sy'n adeiladu ar raglenni ehangu mynediad sefydliadau ac yn hybu cydlynu gweithgareddau o fewn partneriaethau lleol a rhannu arfer da ar draws y sector. Yn 2007 gwnaethom gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'n polisïau ehangu mynediad, gan gynnwys y fenter *Ymgyrraedd yn Ehangach,* a byddwn yn bwrw ymlaen â chanlyniadau'r gwerthusiad yn 2009-10 yn ogystal â myfyrio ynghylch canlyniadau adolygiad 2008/09 yr Academi Addysg Uwch ynghylch strategaethau ehangu mynediad a chynigion Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach. Ymhlith y rhain mae cefnogi SAUau i wella casglu data a'u gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal. Byddwn yn parhau i fonitro'n agos yn ystod BA 2008/09 effaith cyflwyno ffioedd hyblyg yng Nghymru ar ehangu mynediad, ar ôl cyflwyno ffioedd cyfradd uwch yn Lloegr yn BA 2006/07. Hefyd, rydym yn cydnabod rôl bwysig ehangu mynediad yn ystod adeg o ddirwasgiad yn nhermau uwchsgilio a chynhwysiant, gan ystyried *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*'n arbennig.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2012:

1) Byddwn wedi galluogi'r sector i:

i) Fynd i'r afael â chyfle cyfartal drwy gyfranogiad ehangach, wedi'i fesur gan:

- Amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar recriwtio myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig a myfyrwyr anabl;

- Cynnydd y sector tuag at wella cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal, gan gynnwys ennill Marc Ansawdd Frank Buttle; a
- Dangosydd perfformiad y DU ar recriwtio myfyrwyr anabl.

ii) Cyfrannu at fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol a gwella sgiliau er lles yr economi, wedi'i fesur gan:

- nifer yr holl israddedigion newydd ar gyrsiau AU yn SAUau a SABau y DU sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru. Mesurir hyn drwy fonitro canran yr israddedigion newydd sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf sy'n cyfateb i'r 100 Etholaeth Fwyaf Difreintiedig; y targed yw gweld y canran yn codi o 8.9% i 11.4% erbyn 2010. [targed Ymgeisio'n Uwch] a

- sector AU Cymru i gwrdd â neu ragori ar ddangosyddion perfformiad y DU mewn perthynas ag ehangu mynediad yn y meysydd canlynol: myfyrwyr o gymdogaethau lle mae cyfranogiad yn isel, ysgolion y wladwriaeth a myfyrwyr aeddfed.

iii) Parhau i sicrhau cyfraddau cadw sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU, wedi'i fesur gan:

- gyfraddau cadw ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru i fod o leiaf yn hafal i feincnodau cyhoeddedig y DU.

iv) Cynnig darpariaeth addysg uwch hyblyg a hygyrch sy'n cwrdd ag anghenion grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch, wedi'i fesur gan:

- gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW) a dogfennau gwerthusol perthnasol.

- canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ac arolygon y sefydliadau eu hunain o fodlonrwydd myfyrwyr, sy'n cael eu monitro drwy broses Adolygu Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA/QAA).

v) Cydweithio'n effeithiol â'r sector addysg bellach i ehangu mynediad, fel y'i mesurir gan:

- gydymffurfiad ag arfer da mewn partneriaethau rhwng sefydliadau AU ac AB, gan ystyried canlyniadau ystyriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o Adolygiad Webb, yn enwedig ei gynigion 'Trawsnewid Addysg'; a

- Chyfranogiad gan SABau a phartneriaid eraill mewn partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

2) I wneud hynny, bydd CCAUC wedi cyflawni'r canlynol:

i) Cyllid a chymorth ar gyfer gweithgareddau/myfyrwyr ehangu mynediad mewn sefydliadau addysg uwch a'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, fel y'u

hasesir gan werthusiad annibynnol.
ii) Cymorth ar gyfer y gwaith a wneir gan y sefydliadau i wella cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y boblogaeth o fyfyrwyr.
iii) Gwaith gydag is-adrannau perthnasol o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill i weithredu Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru.

Y 'Fargen i Fyfyrwyr'
sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf

Dymunwn weld sector addysg uwch sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU a gwledydd tramor o ran darparu dysgu ac addysgu o ansawdd uwch.

Cyd-destun

Mae addysgu rhagorol ac ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr yn parhau'n ddau o nodau allweddol addysg uwch yng Nghymru. Mae CCAUC yn eu cefnogi drwy gyllido strategaethau dysgu ac addysgu'r sefydliadau; annog y sefydliadau i wneud addysgu rhagorol yn faen prawf pendant ar gyfer dyrchafiad; a chefnogi gweithgareddau ar raddfa Cymru gyfan i rannu arfer da yn y sector. Gweithiwn yn agos gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) i fonitro camau sefydliadau i sicrhau ansawdd a safonau eu dyfarniadau. Gweithiwn hefyd gyda'r Academi Addysg Uwch (AAU) i wella ansawdd a safonau'r ddarpariaeth. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r sector, ASA a AAU i adolygu a datblygu ein hymagwedd tuag at wella ansawdd ymhellach. Mewn perthynas â datblygiadau Ewropeaidd a Bologna, rydym yn gweithio gyda AUC ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, gyda'r AAU ac Uned Ewrop AU y DU a'r Unedau Rhyngwladol. Yn gysylltiedig â hyn, byddwn yn gweithio gyda swyddogion LlCC i ddatblygu strategaeth ar gyfer addysg uwch ryngwladol yng Nghymru.

Rhoddir cefnogaeth arbennig i gynnal a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, drwy roi cyllid i'r sefydliadau, cyllid ar gyfer gweithgarwch gydweithrediadol, a thrwy gefnogi'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r sector i sefydlu fframwaith strategol a chynllun datblygu cenedlaethol newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn unol â dymuniadau'r Gweinidog, rydym yn cynnig cymorth i'r Athro Robin Williams wrth gadeirio Bwrdd Cynllunio'r Coleg Ffederal sy'n edrych ar sut mae bwrw ymlaen ag ymrwymiad *Cymru'n Un* LlCC i ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

Bydd CCAUC yn cefnogi SAUau i gynnal eu henw da rhyngwladol am ansawdd y gwaith a wnânt i wella cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru, yn enwedig drwy gyflwyno rhaglen GO Wales well ar ôl penderfyniad WEFO ym mis Rhagfyr 2008 i roi Cyllid Cydgyfeirio sylweddol i'r Cyngor ar gyfer darparu'r rhaglen wedi'i hadnewyddu o 2009 hyd 2012. Byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar wella cyflogadwyedd graddedigion, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gan gynnwys drwy GO Wales.

Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn adolygiad Leitch o sgiliau, fel y gosodwyd yn ei strategaeth sgiliau a chyflogaeth, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, gan weithio'n arbennig gyda'r rhwydwaith o Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) er mwyn ymateb i faterion yn ymwneud ag ymgysylltu cyflogwyr, gyda ffocws ar sgiliau lefel uwch.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2012:

1) Byddwn wedi galluogi'r sector i:

i) Wella'n barhaus ansawdd, safonau a hyblygrwydd y ddarpariaeth a gynigir, fel y'i mesurir gan: • gyfran y myfyrwyr AU amser-llawn o Gymru wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n astudio mewn SAUau yng Nghymru i godi o 60.1% i 70%. [ailddiffiniwyd targed Ymgeisio'n Uwch gan y Cynulliad, Mai 2007]; • Pob SAU i dderbyn dyfarniad o 'hyder' gan yr ASA; • Pob SAU i adlewyrchu pwysigrwydd addysgu rhagorol drwy gyfrwng strategaethau dysgu ac addysgu a strategaethau adnoddau dynol, fel y'i hasesir drwy ddadansoddiad annibynnol; a • Yr Academi Addysg Uwch i ateb anghenion sefydliadau addysg uwch Cymru drwy wella ansawdd a safonau darpariaeth, fel y'i hasesir gan ymgynghorwyr annibynnol yn y gwerthusiad DU gyfan a gynhaliwyd yn 2007/08.
ii) Cynnig ystod o ddarpariaeth AU cyfrwng Cymraeg i gwrdd ag anghenion Cymru a pholisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y'i mesurir gan: • Y gyfran o fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg i godi o 5.3% yn 2000/01 i 7% yn 2010/11. [ailddiffiniwyd y targed Ymgeisio'n Uwch gan y Cynulliad, Mai 2007]
iii) Cymryd rhan lawn mewn datblygiadau AU Ewropeaidd sy'n deillio o broses Bologna, fel y'i mesurir gan: • Bob SAU yng Nghymru i fod wedi cymryd rhan yn briodol ym mhroses Bologna; • Defnydd rheolaidd o wasanaethau Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB); • Hunanardystio Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW) o fewn Fframwaith Proses Bologna.
iv) Gwneud gwelliannau cynyddol mewn recriwtio myfyrwyr tramor, fel y'i mesurir gan: • Y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau AU yn SAUau Cymru i fod yn hafal â, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer SAUau y DU ar ôl cymryd effaith Llundain a De-Ddwyrain Lloegr i ystyriaeth. [targed Ymgeisio'n Uwch]
v) Sicrhau lleoliadau profiad gwaith a chyflogaeth briodol i'w graddedigion, fel bod • Cyflogi graddedigion o SAUau Cymru o leiaf yn hafal i'r cyfartaledd ar gyfer y DU, fel y dangosir yn y ddogfen flynyddol *Performance Indicators in Higher Education in the UK.*

2) I wneud hynny, bydd CCAUC wedi cyflawni'r canlynol:

i) Gweithio effeithiol mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, yr Academi AU, Addysg Uwch Cymru Brwsel, y Cynghorau Sgiliau Sector a'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg.
ii) Cyllid i gefnogi'r fframwaith strategol cyfrwng Cymraeg.
iii) Parhau i gefnogi Consortiwm Rhyngwladol Cymru.
iv) Rhaglen Cyfleoedd i Raddedigion (GO Wales) wedi'i diweddaru a gefnogir yn awr gan Gronfeydd Cydgyfeirio ar gyfer y cyfnod 2009-12

Rhagoriaeth Ymchwil
sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol

Cyd-destun

Mae ymchwil yn hanfodol ar gyfer creu gwybodaeth ac ar gyfer creu cyfoeth drwy
gymhwyso'r wybodaeth honno. Prif nod CCAUC yw sicrhau bod ansawdd y sylfaen ymchwil yn cymharu'n ffafriol â gweddill y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn bwysig o safbwynt statws y sector addysg uwch yng Nghymru ac er mwyn galluogi sefydliadau addysg uwch Cymru i gyfrannu'n llawn at economi, diwylliant a chymdeithas Cymru.

Mae gan CCAUC ddwy flaenoriaeth allweddol arall o ran polisi. Yn gyntaf, ar adeg pan mae llawer o'r ymchwil orau, yn genedlaethol a rhyngwladol, yn mynd yn fwyfwy cydweithiol ac amlddisgyblaethol ei natur, mae CCAUC yn awyddus i sicrhau bod grwpiau ymchwil yng Nghymru yn ddigon mawr ac ag ystod ddisgyblaethol ddigon eang i fod yn effeithiol a chynaliadwy. Felly mae'n defnyddio cyllid o'i Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio i gefnogi cynlluniau ymchwil cydweithiol graddfa fawr a datblygiadau eraill a fydd yn helpu i weddnewid y sylfaen ymchwil yng Nghymru a chyrraedd y nod hwn. Yn ail, mae CCAUC yn gweithio gyda'r sector i helpu i sicrhau incwm ychwanegol ar gyfer ymchwil o ffynonellau ar wahân i CCAUC, yn enwedig drwy grantiau'r Cynghorau Ymchwil a masnacheiddio ffrwyth eu hymchwil. Gan adeiladu ar sefydliad Canolfan Ymchwil gyntaf *Cymru'n Un*, *Sefydliad Cyfrifiadura Gweledol Cymru,* yn 2008-09, bydd CCAUC yn ystyried ac yn darparu cyngor ar ba gamau pellach y gellir eu cymryd i sefydlu Canolfannau Ymchwil ychwanegol a sicrhau y ceir yr effaith fwyaf posibl ar economi Cymru a bod yr effaith yn cael ei monitro.

Caiff ansawdd yr ymchwil a wneir yn SAUau y DU ei asesu o bryd i'w gilydd drwy
Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) y DU, a gynhelir ar y cyd gan bedwar corff addysg uwch y DU. Cynhaliwyd yr YAY diwethaf yn 2008, ac mae'r canlyniadau wedi dechrau llywio dyraniad cyllid o 2009/10 ymlaen. Hefyd, mae CCAUC yn ymuno â chynghorau ariannu eraill y DU yn 2009 i ystyried trefniadau'r dyfodol ar gyfer asesu ansawdd ymchwil drwy ddefnyddio dangosyddion metrig (a elwir yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil - FfRhY) yn fwy.

Ar hyn o bryd mae CCAUC yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer
ymchwil. Dyrennir y rhan fwyaf o'r arian hwn drwy'r ffrwd gyllido QR i wobrwyo ac atgyfnerthu ymchwil ragorol ar sail canlyniadau'r YAY. Mae CCAUC hefyd yn darparu cyllid ar gyfer hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ac arian i'w fuddsoddi yn isadeiledd ymchwil ffisegol.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2012:

1) Byddwn wedi galluogi'r sector i:

i) gyrraedd safle sy'n cymharu'n dda â gweddill y DU yn nhermau ansawdd a maint ymchwil, fel y dangosir gan: • ganlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) 2008; • SAUau Cymru yn sicrhau 4.5% o gyllid Cynghorau Ymchwil y DU, o'i gymharu â 3.3% yn 2000/01; [targed Ymgeisio'n Uwch] • SAUau Cymru yn sicrhau cynnydd o 100% mewn incwm ymchwil a ddenir o ffynonellau allanol heblaw am y Cynghorau Ymchwil, o'i gymharu â'r ffigur man cychwyn o £55.7 miliwn yn 2000/01; [targed Ymgeisio'n Uwch] • pob SAU sy'n cynnig rhaglenni gradd ymchwil i dderbyn dyfarniad o 'hyder' gan yr ASA.
ii) sicrhau gwaith ymchwil cryf mewn meysydd sydd o bwys cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i Gymru mewn ymateb i flaenoriaethau datblygol y Cynulliad, fel y dangosir gan y mesurau incwm ymchwil ac YAY uchod.

2) I wneud hynny, bydd CCAUC wedi cyflawni'r canlynol:

i) Dull cyllido ymchwil diwygiedig sy'n cyd-fynd â'r trefniadau diwygiedig ar gyfer asesu ymchwil.
ii) Mecanwaith cyllido cefnogol ar gyfer rhaglenni graddau ymchwil.
iii) Parhau i fuddsoddi yn yr isadeiledd ffisegol ar gyfer ymchwil.
iv) Yng nghyd-destun agendâu Ymgeisio'n Uwch, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru a Cymru'n Un, cefnogi meysydd sydd o bwys i Gymru.

Bod o fudd i'r economi a chymdeithas
sicrhau cysylltiadau mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol

Fel bod y sector:

- yn gwneud yn dda o'i gymharu ag eraill yn nhermau gweithgarwch economaidd, diwylliannol a chymdeithasol; ac
- yn gweithio'n egnïol ac yn llawn â chymunedau, busnes a'r sector cyhoeddus er mwyn cyflawni nodau economaidd a chymdeithasol creiddiol y Cynulliad.

Cyd-destun

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn gwneud cyfraniad pwysig at les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Gyda'i gilydd, mae ein sefydliadau AU yn cynhyrchu dros £1 biliwn y flwyddyn o wariant crynswth i economi Cymru, yn cyflogi 1.4% o weithlu Cymru, ac yn gyflogwyr mawr yng Nghymru. Mae gweithgareddau trydedd genhadaeth mewn sefydliadau AU yn ysgogi ac yn rhoi cyfeiriad i gymhwyso ac elwa ar wybodaeth, a gweithio gyda'r gymuned leol, er lles datblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ein cymdeithas. Mae Addysg Uwch yn chwarae rôl angenrheidiol wrth fynd i'r afael â'r cwymp economaidd, cefnogi unigolion, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Erbyn 2007/08 roedd ein Cronfa Trydedd Genhadaeth wedi dyblu i £6.1m y flwyddyn i gydnabod y rôl gynyddol a chwaraeir gan SAUau wrth gefnogi datblygiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r gronfa hon yn galluogi'r sector i:

- gyflwyno strategaethau a pholisïau allweddol Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys *W:AVE, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, Cynllun Gofodol Cymru, y Polisi Gwyddoniaeth a'r Cynllun Gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* (ESDGC);

- sicrhau bod AU Cymru'n chwarae ei ran yn yr ymateb i adroddiadau sy'n berthnasol i'r DU gyfan megis y rheiny a ddaw yn sgil Adolygiad Leitch, adroddiad *Innovation Nation* a *Science and Innovation Framework* 10 mlynedd Trysorlys ei Mawrhydi;

- galluogi Cymru i gymryd rhan yng ngweithgareddau trydedd genhadaeth Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach, cyfleoedd o dan Fframwaith 7 ac Adolygiad y Maes Ymchwil Ewropeaidd.

Mae dyraniadau o'r Gronfa Trydedd Genhadaeth yn rhan bwysig o alluogi'r sector i ymateb i'r holl agendâu hyn, a chânt eu gwella'n strategol gan arian rhaglen A4B y Llywodraeth (olynydd i, ymysg eraill, y Gronfa Manteisio ar Wybodaeth) ac, wrth gwrs, elfennau eraill o gyllid CCAUC y gellir eu defnyddio'n anuniongyrchol i gefnogi gweithgareddau o'r fath.

Hefyd disgwylir i'r sector chwarae ei ran mewn datblygiadau eraill sydd o bwys i Gymru, megis y rhwydwaith datblygol o Gynghorau Sgiliau Sector, yn dilyn sefydlu Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Hefyd bydd disgwyl iddo ymateb i'r heriau i AU a osodwyd gan ddatblygiad academi hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan, wrth iddynt ymddangos yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Bydd hefyd angen parhau i fwrw ymlaen â gofynion perthnasol Strategaeth ar gyfer Gweithredu *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* (ESDCG) y Cynulliad.

Gweithiwn yn agos â Llywodraeth y Cynulliad, ac yn enwedig â'r APADGOS a'r Adran Economi a Thrafnidiaeth (AEaTh), i sicrhau bod y sector yn chwarae rhan lawn wrth helpu'r Cynulliad i gyflawni ei amcanion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â chyfrannu'n llawn ar lwyfan y DU ac yn rhyngwladol, gan ganolbwyntio'n arbennig yn ystod y cynllun hwn ar fesurau i fynd i'r afael â'r cwymp economaidd.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2012:

1) Byddwn wedi galluogi'r sector i:

i) Ddisgrifio'n well ei gyfraniad at les economaidd a chymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt fel y mesurir drwy gynhyrchu strategaethau trydedd genhadaeth sy'n manylu ar gryfderau/meysydd arbenigedd neilltuol pob SAU ac sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad gwiriadwy ar gyfer gwerthuso cyfraniad pob SAU at yr economi a chymdeithas, yn enwedig yn nhermau datganiadau monitro blynyddol.
ii) Cyfrannu at well perfformiad busnes, cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth, a lefelau uwch o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth yng Nghymru drwy ymgysylltu'n fwy â chyflogwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli (yn enwedig y Cynghorau Sgiliau Sector), fel y'i mesurir gan: • ganran y graddedigion ym mhoblogaeth weithio Cymru i fod yn fwy na 15% (adroddiad y Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cyflogaeth (IES); • ymgysylltiad SAU â blaenoriaethau a nodir drwy ddatblygu Cytundebau Sgiliau Sector; • mwy o gydweithio ar ymchwil a datblygiad (fel y'i mesurir gan yr HEBCIS (Arolwg Rhyngweithio Addysg Uwch − Busnes a Chymuned) blynyddol drwy'r DU gyfan; • cynnydd mewn trosglwyddo technoleg a gwybodaeth (fel y'i mesurir gan yr HEBCIS); a • chyrraedd y targed *Ymgeisio'n Uwch* o ddyblu nifer y cwmnïau sy'n deillio o SAUau Cymru erbyn 2010, sef targed o 42 o gwmnïau deilliedig proffidiol (adroddwyd drwy'r HEBCIS). [targed Ymgeisio'n Uwch]
iii) Denu cyllid Ewropeaidd a chyllid arall fel y gall gynyddu hyd yr eithaf ei gyfraniad at les economaidd, diwylliannol, amgylcheddol a chymdeithasol, fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad gwiriadwy a geir yn strategaethau trydedd genhadaeth sefydliadau.
iv) Hyfforddi'r meddygon, deintyddion, nyrsys a staff iechyd proffesiynol eraill

sydd eu hangen yng Nghymru i gynnal y GIG a chwrdd â nodau'r Cynulliad o wella iechyd a ffitrwydd pobl Cymru, fel y'i mesurir drwy gwrdd â thargedau cwota a osodir gan y Cynulliad.
v) Ymgorffori datblygu cynaliadwy yn ei gynllunio strategol cyffredinol i sicrhau bod effeithiau holl weithgareddau'r SAUau yn gynaliadwy, fel y'i mesurir gan y dystiolaeth a ddarperir yn y gwahanol gynlluniau y mae CCAUC yn eu ceisio gan y sefydliadau.

2) I wneud hynny, bydd CCAUC wedi cyflawni'r canlynol:

i) Ystod o fesurau sy'n galluog CCAUC a rhanddeiliaid eraill i fonitro a gwerthuso cyfraniad y sector at les economaidd a chymdeithasol.
ii) Cymorth i'r sector addysg uwch i armywio ffynonellau o gyllid ar wahân i CCAUC i gefnogi a datblygu gweithgareddau trydedd genhadaeth.
iii) Mwy o ryngweithio uniongyrchol â'r Cynghorau Sgiliau Sector a chyrff eraill sy'n cynrychioli cyflogwyr yng Nghymru er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng SAUau a chyflogwyr.
iv) Gweithio mwy effeithiol mewn partneriaeth (yn enwedig â'r Cynulliad) i sicrhau bod cyfraniad y sector at amcanion economaidd a chymdeithasol allweddol y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio a'i gydnabod yn llawn.
v) Helpu'r SAUau i fabwysiadu ymagwedd fwy cyfannol at weithgareddau ar draws y tri maes cenhadaeth AU (Ymchwil, Addysgu a Thrydedd Genhadaeth) sy'n eu galluogi i gyfleu'n fwy effeithiol eu dylanwad ar les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)
cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel

Dymunwn gyfrannu at bolisïau a strategaeth gyffredinol y Cynulliad ar gyfer dysgu yn ysgolion Cymru.

Cyd-destun

Mae CCAUC wedi ymrwymo i ddarparu athrawon newydd o'r ansawdd uchaf. Gweithiwn gyda'r sector i gyrraedd targedau recriwtio a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darpar athrawon ar y lefelau cynradd ac uwchradd, a chydag Estyn i sicrhau ansawdd a safonau'r ddarpariaeth HCA. Mae ein cyllid ar gyfer strategaethau HCA yn annog sefydliadau i fabwysiadu ymagwedd fwy strategol at HCA drwy gyfuno blaenoriaethau perthnasol CCAUC, Estyn a Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys honno ar gyfer darpariaeth HCA cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau i ail-gyflunio'r sector HCA mewn ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn 2005/6. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr HCA i sefydlu tair Canolfan newydd ar gyfer Addysg Athrawon sy'n cyflenwi De-orllewin Cymru, De-ddwyrain Cymru a Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2010:

1) Byddwn wedi galluogi'r sector i:

i) Gwrdd â'r targedau recriwtio HCA cyffredinol a osodir bob blwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i mesurir gan:

- ddadansoddiad blynyddol o recriwtio yn erbyn targedau recriwtio;
- cynllunio strategol ym maes HCA gan y sefydliadau sy'n ei ddarparu.

ii) Sicrhau bod canlyniadau arolygiadau Estyn o HCA yn gadarnhaol, fel y'i mesurir gan:

- 80% o gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon i sicrhau gradd 2 neu uwch yng nghwestiwn allweddol un o Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

iii) Cynnal a datblygu darpariaeth HCA cyfrwng Cymraeg, fel y'i mesurir gan:

- Ddata'r AYAU (HESA) am HCA cyfrwng Cymraeg a pherfformiad yn erbyn y targedau recriwtio ar gyfer Israddedigion Cynradd cyfrwng Cymraeg; a

• Thystiolaeth o gynnydd o fewn strategaethau sefydliadau.

2) I wneud hynny, bydd CCAUC wedi cyflawni'r canlynol:

i) Cymorth i'r sector i ailgyflunio er mwyn cwrdd yn fwy effeithiol â rhagamcaniadau'r Cynulliad ar gyfer yr angen am athrawon hyfforddedig yng Nghymru.
ii) Cymorth ar gyfer gweithgareddau recriwtio HCA drwy gyllid strategaeth HCA.
iii) Gweithio effeithiol mewn partneriaeth gydag Estyn i ddatblygu ansawdd a safonau darpariaeth HCA ar draws y sector.
iv) Cyllid a chymorth ar gyfer HCA cyfrwng Cymraeg drwy gyllid strategaeth HCA a dyraniadau cyllid eraill ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Gwneud iddi Weithio: Y sector addysg uwch yng Nghymru
pwyslais cryf ar ailgyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd

Cyfundrefn addysg uwch sydd, drwy ei gweithgareddau unigol a chydweithiol, yn cynnig darpariaeth amrywiol, yn cael ei chydnabod yn eang yn un sy'n ateb anghenion Cymru, ac yn gystadleuol ar raddfa y DU o leiaf.

Cyd-destun

Ailgyflunio a chydweithio yw'r flaenoriaeth allweddol o hyd yn strategaeth *Ymgeisio yn Uwch* y Cynulliad. Rydym wedi sefydlu Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio i gefnogi cynigion sylweddol â sylfaen gadarn gan sefydliadau addysg uwch ar gyfer cyfuno neu weithio gyda'i gilydd mewn clystyrau neu rwydweithiau rhagoriaeth ym meysydd addysgu, ymchwil a thrydedd genhadaeth. Yn ogystal â chyfuno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a Choleg Merthyr a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru â Phrifysgol Morgannwg, ar hyn o bryd rydym yn gwerthuso cynigion i gyfuno Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Mae nifer o bartneriaethau pwysig hefyd wedi cael eu cefnogi drwy'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Un o'r rhain yw Canolfan Ymchwil *Cymru'n Un,* Sefydliad Cyfrifiadura Gweledol Cymru, a arweinir gan Brifysgol Bangor ac a lansiwyd yn gynharach eleni. Ym mis Ionawr 2009 rhoes adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) gadarnhad cyffredinol i'r modd yr ydym yn gweinyddu'r Gronfa. Byddwn yn datblygu ein trefniadau ymhellach yng ngoleuni ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad. Hefyd, byddwn yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod y sector AU yn ymgysylltu'n llawn â'r agenda a osodir yn *Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant.*

Gwnaethom gyflwyno Cronfa Datblygu Strategol newydd, o £3m y flwyddyn academaidd, yn 2005, a bydd yn dyblu i £6m yn 2009/10. Gwnaethpwyd cyfraniadau i nifer o fentrau ymchwil sydd wedi caniatáu i ragor o arian ar gyfer ymchwil ddod i Gymru. Hefyd, ar hyn o bryd mae'r Gronfa Datblygu Strategol yn cefnogi ystod eang o brosiectau, yn amrywio o fuddsoddi mewn sefydliad unigol gan alluogi ailstrwythuro hanfodol, i fentrau cydweithrediadol ym Mlaenau'r Cymoedd. Mae cymorth o'r Gronfa Datblygu Strategol wedi helpu i sicrhau blaenoriaeth *Cymru'n Un* allweddol - datblygu Sefydliad Gogledd-ddwyrain Cymru i statws Prifysgol llawn. Lansiwyd Prifysgol Glyndŵr yn 2008.

Yn ystod y cyfnod cynllunio blaenorol gwnaethom gomisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth addysg uwch ôl-92 yn Ne-ddwyrain Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau dan sylw i ddarganfod sut orau i weithredu'r weledigaeth a gyflwynir yn yr adroddiad. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Athro Deian Hopkin i gynnal y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ymateb i argymhellion a chynigion dilynol.

Yn ystod y cyfnod cynllunio presennol byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd i CCAUC ddatblygu, yn unol â gofyniad y Cynulliad, ymagwedd fwy strategol at ddefnyddio cyllid creiddiol a chyllid a glustnodir ar gyfer yr agenda *Ymgeisio yn Uwch*, ar y cyd â gwaith parhaus i gryfhau'r sector AU drwy ailgyflunio a

chydweithio. Yn 2009/10 rydym yn defnyddio cyllido strategol i gefnogi ymchwil ymhellach, gan ystyried canlyniadau YAA 2008.

Byddwn hefyd yn defnyddio cyllido strategol i gefnogi Cynllun Arian Cyfatebol newydd, a gynlluniwyd i annog rhoddion gwirfoddol i brifysgolion a cholegau drwy gyfateb rhoddion ag arian CCAUC.

Mae ein Menter Cymorth Economaidd newydd, a sefydlwyd i annog ymgysylltiad pellach y sector AU yng Nghymru, gan helpu i wrthdroi effaith y cwymp ariannol ar unigolion a chyflogwyr, hefyd yn cael ei chefnogi gan yr arian hwn. Yn y cwymp ariannol, byddwn hefyd yn annog sefydliadau i roi ystyriaeth bellach i'w rolau fel cyflogwyr lleol a rhanbarthol pwysig, er enghraifft drwy gefnogi cymhelliant y llywodraeth i gynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael.

Rydym hefyd, o dan y Nod Strategol hwn, yn tynnu sylw at wahanol weithgareddau yr ymgymerir â hwy mewn perthynas â'n cyfrifoldebau dros fonitro a gwerthuso perfformiad y sector AU, a'n rôl o ran darparu cyngor ac arweiniad ar faterion arweinyddiaeth, trefn lywodraethol a rheolaeth. Er enghraifft, rydym wedi rhyddhau fersiynau diwygiedig o'r Memorandwm Ariannol a Chôd Ymarfer Archwiliadau a ddaeth i rym o 1 Awst 2008. Rydym hefyd yn adolygu ein fframwaith ar gyfer ymgysylltiad strategol â'r sector a'n hymagwedd tuag at asesiadau risg sefydliadau, fel ein bod yn gallu canolbwyntio'n fwy clir ar y materion strategol allweddol sy'n wynebu'r drefn lywodraethol ac ar gynaladwyedd mwy hirdymor sefydliadau. Yn y maes llywodraethu, rydym yn gweithio gyda Chadeiryddion Pwyllgor Prifysgolion, y Sefydliad Arweinyddiaeth a chyrff ariannu eraill ar nifer o brosiectau pellach i atgyfnerthu llywodraethu yn y sector. Hefyd, byddwn yn datblygu, wrth ymgynghori ag AUC a CAUC, pecyn cymorth gwybodaeth i lywodraethwyr yn ymwneud â mesurau perfformiad allweddol ar gyfer pob sefydliad, yn seiliedig ar wybodaeth a data a gyhoeddwyd. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu i gynnwys gwybodaeth gymharol ar gyfer SAUau eraill, neu grwpiau o SAUau, er mwyn cynnig meincnodi pellach a gwybodaeth gyd-destunol i lywodraethwyr.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2012:

1) Bydd CCAUC wedi galluogi'r sector addysg uwch yng Nghymru i feddu ar y nodweddion canlynol:

i) Dim un sefydliad i fod mewn sefyllfa ariannol ymylol neu anfoddhaol, a dim un sefydliad yn cael ei ystyried yn risg uchel o ran y drefn lywodraethol, cyfeiriad strategol a chynaladwyedd, fel y'i mesurir gan:

- dim un sefydliad i fod mewn sefyllfa ariannol ymylol neu anfoddhaol;
- dim un sefydliad yn cael ei ystyried yn risg uchel o ran y drefn lywodraethol, cyfeiriad strategol a chynaladwyedd; a
- thystiolaeth glir o raglenni gwerth am arian, fel y'i mesurir wrth gyflwyno targedau cynllun gweithredu gwerth am arian o dan bolisi Creu'r Cysylltiadau y Cynulliad, gan gynnwys strategaethau caffael cynaliadwy.

ii) Cael ei lywodraethu a'i reoli'n dda, fel y dangosir gan:

- dim un sefydliad yn cael ei ystyried yn risg uchel o ran llywodraethu;
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig â'r cynllun strategol a gaiff ei fonitro gan y corff llywodraethol;
- yr holl sefydliadau yn rhoi sylw cyson i'r gwahanol agweddau ar gydraddoldeb, fel y dangosir gan eu cynlluniau strategol a'u cynlluniau a strategaethau eraill a'u llwyddiant i gwrdd â'u cyfrifoldebau statudol o leiaf fel y dangosir gan werthuso allanol;
- dim un sefydliad yn darparu data ariannu neu ddata ystadegol arall nad yw'n ddibynadwy nac yn gywir i unrhyw gorff rheoleiddiol AU y dangosir gan adroddiad archwilio mewnol cyfnodol a gomisiynir gan sefydliadau a'u llywodraethwyr ac adroddiadau archwilio allanol a gomisiynir gan CCAUC;
- Y gost weinyddu ganolrif am bob myfyriwr CALl ar gyfer SAUau Cymru i ostwng o lefel y 45ain canradd (2000/01) ar gyfer costau gweinyddu am bob myfyriwr CALl yn SAUau y DU i'r 25ain canradd erbyn 2010/11; [targed Ymgeisio yn Uwch]
- Strategaethau ystadau sy'n gyson â'r Cynlluniau Strategol ac a adlewyrchir yn llawn o fewn rhagolygon ariannol y sefydliad;
- Strategaethau caffael cynaliadwy o fewn rhaglenni gwerth am arian.

iii) Wedi'i ailgyflunio mewn ffordd sy'n ei alluogi i wneud yn dda o'i gymharu â'r DU gyfan mewn perthynas â chyrchu arian ymchwil o'r DU ac Ewrop, ac i ddarparu gwell gwasanaethau i ddysgwyr, yr economi a chymdeithas ar hyd a lled Cymru, fel y'i mesurir gan:

- ddangosyddion eraill sydd eisoes wedi'u nodi uchod;
- tystiolaeth glir o gyfuniadau a/neu gydweithio sylweddol, strwythurol a chynaliadwy rhwng sefydliadau;
- cynnydd pendant tuag at gyrraedd targedau Ymgeisio yn Uwch yn seiliedig ar ddatblygiadau cydweithiol;
- tystiolaeth glir bod y sector AU wedi cyfrannu at gwrdd â thargedau Polisi Gwyddoniaeth LICC yn seiledig ar ddatblygiadau cydweithiol; a
- thystiolaeth glir o fwy o fuddsoddi cyfalaf yn natblygiad ystâd AU.

2) I wneud hynny, bydd CCAUC wedi cyflawni'r canlynol:

i) Rhaglen lwyddiannus o brosiectau o dan y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio sy'n sail i gydweithio effeithiol ym mhob maes gweithgarwch, fel y dangosir gan lwyddiant i weithredu canlyniadau prosiectau, gan gynnwys (fel y bo'n briodol)

cyfuno.
ii) Cymorth strategol, gan gynnwys defnyddio cyllid creiddiol yn strategol, wedi'i seilio ar ddealltwriaeth drylwyr o gynlluniau a pherfformiad y sefydliadau, a'r newid parhaus yn nhirlun sector AU, sy'n cyfrannu at ddatblygiad y sector.
iii) Cymorth cyson i'r Sefydliad Arweinyddiaeth mewn perthynas ag agenda ar gyfer uwch reolwyr a chyrff llywodraethol.
iv) Cymorth pellach gydag adnoddau dynol, strategaethau caffael ac ystadau, a'r agenda cydraddoldebau ac amryweiaeth.

Gwneud Iddi Weithio: CCAUC
bod yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy:

- *feddu ar y gallu a'r isadeiledd angenrheidiol i'n galluogi i weithio'n effeithiol yn fewnol a chyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru)*

- *bod yn ddewis deniadol fel cyflogwr*

Cyd-destun

Mae CCAUC yn cydnabod, er mwyn cyflawni ei nodau polisi a darparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, y sector AU a rhanddeiliaid eraill, fod rhaid iddo ddarparu amgylchedd lle y gall ei staff gyrraedd eu potensial llawn.

Rydym wedi sicrhau bod ein systemau a'n prosesau'n effeithiol er mwyn galluogi CCAUC i ddarparu'r canlyniadau a ddisgwylir. Un arwydd o hyn yw i CCAUC gael ei ailachredu yn erbyn y safon Buddsoddwyr mewn Pobl newydd yn dilyn adolygiad ym mis Hydref 2006. Rydym yn awr yn benderfynol o ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod CCAUC yn gwella'n barhaus ac yn sefydliad sy'n gallu cwrdd â heriau yn y dyfodol. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi cyflwyno strwythur gyda dwy gyfarwyddiaeth yn cefnogi'r Prif Weithredwr, a chyda nifer llai o dimau. Dylai hyn alluogi staff o fewn timoedd ac ar draws timoedd i fynd i'r afael â'r agenda strategol.

Yn 2007 gwnaethom fabwysiadu cyfres o werthoedd ac ymddygiadau yn dilyn ymgynghori helaeth o fewn y sefydliad. Yr her yn awr yw i ni ddangos y gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn yn fewnol ac allanol. Rydym wedi ail-lunio ein fframwaith cymhwysedd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwerthoedd. Hefyd, rydym wedi cynnal proses hunanasesu hefyd o dan Fodel Rhagoriaeth y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Ansawdd (EFQM), sydd wedi ein helpu i nodi meysydd lle y mae angen gweithredu pellach, gan gynnwys sicrhau'r ymrwymiad angenrheidiol i arweinyddiaeth a rheolaeth. Byddwn yn trafod a ddylem gynnal rhagor o hunanasesiadau EFQM ar ôl i ni werthuso canlyniadau'r adolygiad cyntaf yn 2010.

Mae CCAUC yn dibynnu ar ei staff i gyflawni ei amcanion. Felly rhaid i ni recriwtio a datblygu staff sy'n perfformio'n effeithiol ac sy'n amlygu gwerthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad, ac mae'n rhaid i ni eu gwobrwyo mewn modd priodol. Rydym wedi cynnal archwiliad cyflog cyfartal sydd wedi dangos bod ein mecanweithiau gwerthuso swyddi a'n mecanweithiau cyflog yn deg. Hefyd, mae CCAUC wedi cynnal adolygiad llawn o'i gyflogau, ei fecanweithiau graddio, ei fecanweithiau gwerthuso swyddi, a'i gynllun rheoli perfformiad, i'w gefnogi fel cyflogwr sy'n ddewis deiniadol. Mae canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd, a'r nod yw gweithredu'r cynigion yn ystod 2009-10.

Bydd CCAUC yn dibynnu ar bedwar prif fecanwaith ar gyfer asesu i ba raddau y mae wedi cwrdd â'i amcanion. Y rhain yw:

- Adolygiadau perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP)
- Arolygon rhanddeiliaid
- Arolygon staff

Cynhaliwyd yr arolwg rhanddeiliaid cyntaf yn 2007-08, ac roedd yn gadarnhaol i raddau helaeth, er ei fod yn amlygu nifer o feysydd lle mae angen i ni wella ein heffeithiolrwydd neu'n cyflwyniad. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg sy'n canolbwyntio ar dri phrif faes sef: gwella cyfathrebu; datblygu ein hymgysylltiad â sefydliadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn egluro eu dealltwriaeth o rôl CCAUC a'i Gyngor.

Byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o drefn lywodraethu CCAUC, sydd i ddechrau ym mis Mai 2009.

Amcanion a chanlyniadau strategol

Erbyn 2012:

1) Byddwn ni'n:

i) Gorff sy'n gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol gyda'r sector, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill, fel y dangosir gan: • adolygiadau perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru; • arolygon allanol o bryd i'w gilydd o farn rhanddeiliaid, gyda thuedd o adborth mwyfwy cadarnhol; a • gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau, a ddangosir gan gyflawniadau yn erbyn ein cynllun gweithredu *Gwneud y Cysylltiadau.*
ii) Corff sy'n "ddewis deniadol fel cyflogwr", fel y dangosir gan: • arolygon bodlonrwydd staff; a • chyfraddau trosiant staff wedi'u meincnodi yn erbyn cyflogwyr priodol eraill.

2) A byddwn wedi cyflawni'r canlynol:

i) Cyllid a strategaeth sy'n cyflawni ein cylch gwaith ac yn rhoi gwerth da am arian, fel y dangosir gan drefniadau monitro ac adolygu'r Cynulliad, monitro yn erbyn cynlluniau gweithredu gwerth am arian, a chanlyniadau arolygon o randdeiliaid.

ii) Prif-ffrydio, yn ein holl brosesau busnes (gan gynnwys gweithgareddau rhaglen,prosesau cyllid a chaffael, a rheolaeth ystadau), ddyletswyddau'r Cynulliad mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb, gweithio mewn partneriaeth, diogelwch gwybodaeth, rheoli risg a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
iii) Bydd ein hachrediad yn erbyn y safon Buddsoddwyr mewn Pobl yn parhau.

Atodiad A

Hybu gwerthoedd, egwyddorion a themâu trawsbynciol y Cynulliad

Mae CCAUC yn gweithio i gefnogi datblygu a gweithredu agenda strategol y Cynulliad ac adlewyrchir hyn yn glir yng nghyfeiriad a chynnwys y cynllun tair blynedd hwn. Yn ogystal â gweithredu strategaeth hirdymor y Cynulliad ar gyfer addysg uwch, *Ymgeisio yn Uwch*, mae CCAUC hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru; Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* a dogfennau atodol, gan gynnwys *Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* drwy gynyddu i'r eithaf gyfraniad y sector AU at
gyflawni strategaethau cenedlaethol allweddol. Mae CCAUC hefyd wedi ymrwymo i chwarae ei ran yn yr ymgyrch i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel y nodir yn agenda *Gwneud y Cysylltiadau*'r Cynulliad.

Gofynnodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i'r Athro Merfyn Jones gadeirio grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi cynnal adolygiad o genhadaeth, pwrpas a rôl addysg uwch yng Nghymru ynghyd â'r cyllid ar ei chyfer. Rydym yn disgwyl ystyried ymateb y Gweinidog i Adolygiad Jones yn ystod cyfnod y cynllun, unwaith y caiff ei gyhoeddi.

Mae ein gwaith yn effeithio ar y pedwar canlyniad uchel eu blaenoriaeth a nodir yn *Cymru: Gwlad Well*. Mewn partneriaeth ag adrannau perthnasol o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Economi a Thrafnidiaeth yn y Cynulliad, ac yng nghyd-destun strategaeth sgiliau a chyflogaeth y Cynulliad, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, chwaraewn rôl ganolog wrth wireddu'r blaenoriaethau ar gyfer 'creu gwell swyddi a sgiliau' a 'helpu mwy o bobl i gael swyddi'. Mae CCAUC a'r sector AU yng Nghymru hefyd yn cyfrannu at gwrdd â'r blaenoriaethau ar gyfer 'gwella iechyd' (drwy hyfforddi meddygon a staff proffesiynol eraill ar gyfer y gwasanaeth iechyd, a thrwy ymchwil ym maes iechyd) ac ar gyfer 'datblygu cymunedau cryf a diogel' (drwy waith SAUau yn eu cymunedau, darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthnasol, a'u rôl fel cyflogwyr a phrynwyr lleol o bwys).

Bydd cyflawni nodau strategol CCAUC yn dangos ein cefnogaeth glir a chadarnhaol i'r canlyniadau a dargedir yn *Cymru: Gwlad Well*. Byddwn yn sicrhau bod y themâu trawsbynciol o ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb, gweithio mewn partneriaeth a dwyieithrwydd yn parhau i gael eu prif-ffrydio i'n holl weithgareddau creiddiol a phrosesau busnes. Yn arbennig, bydd ein cynllun gweithredu *Gwneud y Cysylltiadau* yn dangos sut y mae ein gwaith yn cwmpasu pedair egwyddor gwell gwasanaeth y Cynulliad:

- ymagwedd 'dinesydd-ganolog';
- cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol;
- gweithio gyda'n gilydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru; a
- gwerth am arian.

Cyfrannwn hefyd at:

- weithredu Cynllun Gofodol Cymru, drwy weithredoedd SAUau wedi'u dosbarthu ar draws Cymru;
- symud ymlaen, gyda'r sector AU, â'r argymhellion perthnasol yn y Cynllun Gweithredu *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang*;

- gweithredu Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol, gan gynnwys drwy weithgareddau'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach;

- argymhellion yr adroddiad ar yr adolygiad o wasanaethau lleol (Adolygiad Beecham) ac ymateb y Cynulliad iddo, drwy weithgareddau'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, annog SAUau i fynd i'r afael ag anghenion neilltuol y rheiny sy'n gadael gofal, ac ymwneud y sector AU â'r Cynllun Gofodol; a

- gwaith Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, lle y bo'n briodol, wrth iddynt roi Cynlluniau Gweithredu Cymunedol ar waith ac wrth effeithio ar dlodi plant.

Atodiad B

Gweithio Mewn Partneriaeth

Wrth fynd ymlaen â'n hamcanion tymor-hir a'r blaenoriaethau neilltuol yr ydym wedi'u gosod i ni ein hunain ar gyfer y cyfnod cynllunio, rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio mewn partneriaeth ac mewn ymgynghoriad â Chyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, partneriaid eraill, rhanddeiliaid allweddol a'r sector gwirfoddol, fel y bo'n briodol.

Partneriaid yng Nghymru

Rydym eisoes yn gweithio, neu'n cynllunio i weithio, ar y cyd â nifer o bartneriaid yng Nghymru mewn perthynas â meysydd strategol allweddol a nodir yn y ddogfen hon neu â strategaethau allweddol y Cynulliad, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Addysg Uwch Cymru (AUC)
- Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC)
- Prifysgol Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) Cymru
- Y Ffederasiwn Busnesau Bach
- SKILL Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- Fforwm
- Undeb y Prifysgolion a'r Colegau
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

- Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru
- Gyrfa Cymru
- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Cyngor Rheolaeth Cymru
- Consortiwm Prynu Addysg Uwch Cymru (HEPCW)
- Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Addysg Uwch Cymru (WHEFDG)
- Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru

Partneriaid yn y DU

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos â'r partneriaid canlynol yn y DU wrth fwrw ymlaen â'n Strategaeth a'n Cynllun:

- Cyrff cyllido AU eraill y DU (CCAULI, CCA, ACDGI)
- Prifysgolion y DU (UUK)
- Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
- Yr Uned Her Cydraddoldeb
- Cynghorau Ymchwil, Cyngor Ymchwil y DU (RCUK), a'r Swyddfa Gwyddoniaeth ac Arloesi (OSI)
- Cyfleoedd Addysg Uwch ac Ymchwil yn y DU (HERO)
- Y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC)
- UKERNA
- Pwyllgor Ymgynghorol Addysg Gofal Iechyd y DU (UKHEAC)
- Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain
- Fforwm i'r Dyfodol
- Y Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau (CES)
- Cynghrair o Gynghorau Sgiliau Sector
- Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA)
- Y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch
- Yr Academi Addysg Uwch
- Unedau Ewrop a Rhyngwladol AU y DU
- Cyngor Mentergarwch Graddedigion y DU
- Yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu i Ysgolion (TDA)
- UCAS
- Y Gofrestrfa Hyfforddiant Athrawon Graddedig (GTTR)
- Yr Ymddiriedolaeth Garbon
- Cymdeithas Amgylcheddol Prifysgolion a Cholegau
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Ystadau Prifysgolion

Wrth symud ymlaen â'r gweithgareddau a nodir yn y ddogfen hon, ac fel rhan o'i datblygiad parhaus bob blwyddyn, byddwn yn sicrhau ei bod yn cyd-fynd, fel y bo'n briodol, â strategaethau allweddol eraill y Cynulliad, gan gynnwys:

- Cymru'n Un
- Ymgeisio yn Uwch
- Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru
- Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Dull gweithredu newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ymgynghoriad) Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith

- Cynllun Gofodol Cymru
- Cymru: Gwlad Well
- Gwneud y Cysylltiadau
- Cynllun i Gymru
- Cymru Ar-lein
- Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE)
- Polisi Gwyddoniaeth y Cynulliad
- Iaith Pawb (Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog)
- Mae Ieithoedd yn Cyfrif (Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Adroddiad Nexus
- Cymru Greadigol
- Cynllun Gweithredu ESDGC

Byddwn hefyd yn annog pob SAU i weithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol a'i bartneriaid cyfagos, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol perthnasol, wrth baratoi strategaethau cymunedol, yn enwedig o dan Ymgyrraedd yn Ehangach a thrwy weithgorau rhanbarthol Cynllun Gofodol Cymru.

Atodiad C

Gwella effeithlonrwydd gweithredol, safonau gwasanaeth a gofal cwsmeriaid

O dan y Nod Strategol 'Gwneud iddi Weithio: CCAUC', ymdrechwn i sicrhau ein bod yn:

- gweithio'n effeithlon ac effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian yn unol â'n cynllun gweithredu gwerth am arian o dan *Gwneud y Cysylltiadau;*
- gyflogwr model ym mhob ystyr, yn enwedig mewn perthynas â chyfle cyfartal; ac
- yn cyflawni disgwyliadau'r Cynulliad a'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â Rhyddid Gwybodaeth a rheoli cofnodion.

Ein bwriad, yn ystod cyfnod y cynllun hwn, yw:

- cyfnerthu ein trefniadaeth a'n harferion gwaith;
- cwblhau'r adolygiad o strwythur ein pwyllgorau a gweithredu'r newidiadau sy'n codi yn yr adolygiad;
- ystyried mesurau pellach i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd, gan gynnwys symud ymlaen â chasgliadau allweddol yr ymarfer hunanasesu EFQM a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-07; ac
- adolygu'n rheolaidd ein Cynllun Cyhoeddi, a datblygu ymhellach ein systemau rheoli cofnodion, a'n trefniadau ar gyfer sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Gwarchod Data a Rheoliadau Amgylcheddol.
- gweithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer cyfathrebu er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n codi yn arolwg y rhanddeilaid gan roi blaenoriaeth i ddiweddaru gwefan CCAUC.

Safonau Gwasanaeth

Byddwn yn adolygu ein gwasanaethau yn erbyn y safonau creiddiol ar gyfer 'gwasanaeth cwsmeriaid' ac 'ymgysylltu â'r cyhoedd' a nodir yn *Cyflawni'r Cysylltiadau* ar sail y safonau manwl, yr arweiniad cysylltiedig a chyngor ar arfer da a gyhoeddir gan y Cynulliad cyn bo hir.

Yn y cyfamser, byddwn yn:

- dyrannu ein Grant Rheolaidd erbyn diwedd pob mis Mawrth ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod;

- talu cyllid wedi'i broffilio yn brydlon i sefydliadau;

- ymateb i / darparu adborth ar strategaethau'r sefydliadau o fewn 3 mis ar ôl eu derbyn;

- sicrhau bod y Prif Weithredwr yn ymweld â phob sefydliad AU yng Nghymru bob
  blwyddyn;

- darparu'r newyddion diweddaraf o ddiddordeb 'testunol' yn rheolaidd drwy ein gwefan a dulliau eraill;

- ymateb i bob gohebiaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ac ateb pob cais am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

- talu pawb sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i CCAUC o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb;

- cwrdd â gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg;

- bod wedi ymrwymo i ddarparu safon gwasanaeth yr un mor uchel i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'r egwyddor o drin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal;

- bodloni'r gofynion a osodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl;

- cadw ein statws *Buddsoddwyr mewn Pobl*; a

- chadw ein achrediad IS27001 safonol yn ymwneud â Diogelwch Gwybodaeth

Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

Byddwn yn:

- gweithredu'r gwelliannau a nodir yn y Cynllun Gwella Amgylcheddol; a

- monitro a chofnodi'r effeithiau amgylcheddol presennol.

Caffael

Byddwn yn:

- ymdrechu i gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd gynaliadwy, gan gymryd ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol i ystyriaeth ochr yn ochr â ffactorau ariannol ac ansoddol;

- defnyddio arweiniad y Cynulliad i asesu a mesur ein sefyllfa bresennol a chynhyrchu a rhoi ar waith gynllun gweithredu i wella ymhellach ein

gwaith ar gaffael cynaliadwy, er mwyn cyrraedd targedau caffael cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad;

- defnyddio'r dechnoleg e-gaffael sydd ar gael i barhau i symleiddio ein prosesau caffael;

- mabwysiadu 'Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig' Llywodraeth y Cynulliad; a

- pharhau i fonitro arbedion caffael yn erbyn targed arbedion *Creu'r Cysylltiadau,* a chyflwyno defnydd o Fodel Adrodd Buddiannau Llywodraeth y Cynulliad.

Atodiad Ch

Crynodeb o'r dyraniadau cyllideb, blynyddoedd ariannol 2009-10 a 20010-11 ac ymrwymiadau cyllideb blwyddyn Academaidd 2009/010

(I) Grant y Cynulliad i CCAUC, blynyddoedd ariannol 2009-10 a 20010-11

	Blwyddyn ariannol:	**2009-10 £m (arwyddol)**	**2010-11 £m (arwyddol)**
Grant Rheolaidd		405.045	414.272
***Ymgeisio yn Uwch* rheolaidd**		27.981	26.047
***Ymgeisio yn Uwch* cyfalaf**		6.76	3.83
Cyfalaf		21.745	23.745
Costau Rhedeg		3.249	3.332
Derbynebau cyfredol		-7.798	-7.798
CYFANSWM:		**456.982**	**463.428**
Trosglwyddiad PA tybiedig (Arwyddol)		**7.751**	**7.963**

(II) Ymrwymiadau cyllideb CCAUC: blwyddyn academaidd 2009/10

	(£m)	*Ymgyrraedd yn Ehangach*	*Y 'Fargen i Fyfyrwyr'*	*Rhagoriaeth Ymchwil*	*Bod o fudd i'r Economi a Chymdeithas*	*HCA*	*Gwneud iddi Weithio: sector AU*
Cyllid Rheolaidd:							
Addysgu							
Prif grant Addysgu (fformiwla + y pen)	276.98	●	●		●	●	
Premiwm Ehangu mynediad	5.61	●					
Premiwm Anableddau	0.88	●					
Premiwm Cyfrwng Cymraeg	1.4		●				
Cyllid wedi'i Neilltuo ar gyfer y Brifysgol Agored	7.821		●				
Credydau wedi'u hariannu'n strategol	0.094						
Cyllid Graham	6.4	●	●				
Cyfanswm	**299.181**						
Ymchwil							
Grant seiliedig ar YAY	74.46			●	●		

	(£m)	*Ymgyrraeddyn Ehangach*	*Y 'Fargen i Fyfyrwyr'*	*Rhagoriaeth Ymchwil*	*Bod o fudd i'r Economi a Chymdeithas*	*HCA*	*Gwneud iddi Weithio: sector AU*
Cynllun Dyfarniadau Myfyrwyr Ymchwil Tramor	0.358		●	●			
Rhwydwaith Llyfrgelloedd Ymchwil (RLN)	0.05			●			
Gwasg PC + Bwrdd Gwybodau Celtaidd PC	0.293			●			
Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd	5.6		●	●			
Cyfanswm	**80.8**						
Cyllid Trydedd Genhadaeth							
Cronfa Trydedd Genhadaeth	6.4			●	●		
GO Wales	1.8		●		●		
Cwmni Deillio	0.25						
Cyfanswm	**8.45**						
Strategaethau a Mentrau							
Cronfa Datblygu Strategol	5.3						●
Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC)	3.4	●	●	●	●	●	
Pynciau o Bwysigrwydd Ehangach i Gymru	0.75	●			●		
Sefydliad Arweinyddiaeth	0.06						●
Cronfa Prif Weithredwr	0.4	●	●	●	●		●
Cronfa Ehangu Mynediad	1.898	●	●		●		
Cyfrwng Cymraeg (Cronfa ac Uned)	0.52	●			●		●
Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (mentrau, strategaeth a phartneriaethau arbennig)	1.49					●	
Cynllun ildio ffioedd rhan-amser + Ad-daliad ERASMUS	2	●	●				
Strategaethau Dysgu ac Addysgu	2.54	●	●				
Prifysgol Caerdydd –	1.1				●		

	(£m)	*Ymgyrraedd yn Ehangach*	*Y 'Fargen i Fyfyrwyr'*	*Rhagoriaeth Ymchwil*	*Bod o fudd i'r Economi a Chymdeithas*	*HCA*	*Gwneud iddi Weithio: sector AU*
Ysgol Glinigol Gogledd Cymru							
Menter Her Economaidd	1.3				●		●
Astudiaethau bach	0.862	●	●	●	●	●	●
Cyfanswm	**21.62**						
Cyfanswm Rheolaidd	**410.051**						
Cyllid Cyfalaf							
Ymchwil	10.8			●	●		
Addysgu	13	●	●		●		
Cyfanswm Cyfalaf	**23.8**						
Dyraniadau Blwyddyn Ariannol 2009-10							
Ymgeisio yn Uwch							
- Ailgyflunio a Chydweithio	21.1	●	●	●	●	●	●
- Ymgyrraedd yn Ehangach	2.1	●			●		●
- Cyfalaf Ymgeisio yn Uwch	11.25	●	●	●	●	●	●
CYFANSWM *Ymgeisio yn Uwch*	**34.45**						

Atodiad D

Llywodraethu corfforaethol a threfniadau cydymffurfio

Atebolrwydd CCAUC

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd a wneir o'r arian cyhoeddus a roir i CCAUC.

Diffinnir y berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth y Cynulliad mewn Datganiad Rheoli ac mewn Memorandwm Ariannol. Mae'r Memorandwm Ariannol yn manylu ar yr hyn y mae gofyn i CCAUC ei wneud i sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth wario arian cyhoeddus, ac mae hefyd yn nodi disgwyliadau'r Cynulliad o ran perthynas ariannol CCAUC â'r sefydliadau.

Mae gan CCAUC set fanwl o reoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael, sy'n ceisio sicrhau bod busnes CCAUC yn cael ei gynnal yn unol â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol, trefn gyfrifydda'r Llywodraeth a holl ofynion perthnasol eraill y Trysorlys, Llywodraeth y Cynulliad a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilydd allanol CCAUC., sy'n archwilio cyfrifon CCAUC, gan gynnwys y datganiad ar Reolaeth Fewnol y mae'r Prif Weithredwr yn ei lunio bob blwyddyn, i ddangos sut mae prosesau mewnol CCAUC yn rhoi sicrwydd o reoleidd-dra a phriodoldeb.

Mae gwasanaeth archwilio mewnol CCAUC yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r ystod lawn o weithgareddau CCAUC ac yn cyflwyno ei gasgliadau i Bwyllgor Archwilio a Risg CCAUC. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae'r Gweinidog yn cynnal cyfarfodydd monitro blynyddol â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad bob chwarter gyda'r Prif Weithredwr ac uwch swyddogion eraill.

Ymateb i'r Amgylchedd a Rheoli Risg

Fel corff cyfryngol rhwng y Cynulliad a'r sector AU yng Nghymru, rydym yn gweithredu o fewn amgylchedd yr ydym yn y sefyllfa o ddylanwadu arni yn hytrach na'i rheoli.

Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg at reolaeth fewnol a fydd yn rhoi sicrwydd rhesymol y byddwn yn cyflawni ein cenhadaeth gyffredinol a'n hamcanion corfforaethol. Rydym wedi datblygu Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg sy'n disgrifio'r fframwaith a ddefnyddir gan CCAUC i nodi a gwerthuso risgiau fel y gellir penderfynu ar ymateb priodol a'i roi ar waith.

Y Cyngor

Mae gan Gyngor CCAUC 12 aelod ar y mwyaf, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Bydd y Cyngor fel rheol yn cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn.

Bydd aseswr o Lywodraeth y Cynulliad yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae gan Brif Weithredwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido'r Alban, ynghyd â'r Is-ysgrifennydd sy'n gyfrifol am addysg uwch yn Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Cynghorau Ymchwil statws sylwedydd ar y Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o bwyllgorau sefydlog, gan gynnwys:

- Y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'
- Y Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu;
- Y Pwyllgor Ailgyflunio a Chydweithio;
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg;
- Y Pwyllgor Adnoddau Dynol;
- Y Pwyllgor Tâl;
- Y Pwyllgor Penodi.

Mae gofyn i bob aelod o'r Cyngor a staff CCAUC gydymffurfio â Chod Ymarfer a chofrestru buddiannau ariannol a gwleidyddol a buddiannau eraill sy'n berthnasol i fusnes y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi datblygu, ac yn adolygu bob blwyddyn, *Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes y Cyngor*, *Cynllun Dirprwyo* a set fanwl o *Reoliadau Ariannol*.

Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol
Bob blwyddyn byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r Cynllun hwn yn ôl y gofyn. Adolygwn y canlyniadau hirdymor yn erbyn ein holl nodau strategol. Mae cynllun gweithredol ar wahan yn nodi'r targedau a'r gweithredoedd penodol a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n cael eu nodi yn y Llythyr Cylch Gwaith diweddaraf i CCAUC.

Cyflwynir ein Cynllun i'r Cynulliad bob blwyddyn i'w gymeradwyo. Caiff perfformiad yn erbyn y targedau yn ein Cynlluniau ei fonitro drwy:

- gyfarfod monitro blynyddol rhwng y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (bob mis Hydref);

- cyfarfodydd monitro chwarterol gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o is-adran noddi CCAUC;

- adroddiadau chwarterol ar gynnydd i'r Cyngor; ac

- adolygiadau mewnol rheolaidd gan Fwrdd Rheoli CCAUC

Polisi dwyieithrwydd
Yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor y dylai'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Rydym hefyd wedi datblygu Strategaeth Prif-ffrydio Iaith Gymraeg sy'n amlinellu sut yr ydym yn bwriadu prif-ffrydio ystyriaeth o'r iaith Gymraeg yn ein prosesau llunio polisi a darparu gwasanaethau.

Cwynion, honiadau a gweithdrefnau datguddio er budd y cyhoedd

Rydym wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn CCAUC, honiadau ynghylch sefydliadau a gyllidir gan CCAUC, a datguddio er budd y cyhoedd. Fel sawl corff cyhoeddus arall, gall Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i'n penderfyniadau.

Cynllun Cyhoeddi
Rydym wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi model Llywodraeth Cynulliad Cymru Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae'n nodi'r wybodaeth yr ydym ni'n ei chyhoeddi, neu'n bwriadu ei chyhoeddi, yn rheolaidd; sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl.

Cynllun Cydraddoldeb
Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb sengl yn 2008. Gyda Deddf Cydraddoldeb 2006 cafwyd llywio deddfwriaethol tuag at ymagweddau sy'n holl-gydradd i'r agenda hwn. Yn ogystal â dod â'n cynlluniau cydraddoldeb presennol a'n cynlluniau gweithredu ar gyfer anabledd, rhyw a hil at ei gilydd mae ein Cynllun Cydraddoldeb hefyd yn darparu gwybodaeth am ein gwaith yn y meysydd oedran, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, gan nodi hefyd ein bwriad i fynd y tu hwnt i gydymffurfio â deddfwriaeth yn unig. Wrth ymgysylltu â phob maes mewn ffordd gydlynol a chyfannol gobeithiwn leihau biwrocratiaeth, annog gweithredu effeithiol, ac yn bwysicaf oll, sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif-ffrydio yn ein gweithgareddau craidd.

Atodiad Dd

Talfyriadau

AADGOS	Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
AAU	Academi Addysg Uwch
AB	Addysg Bellach
APS	Adran Arloesi, Prifysgolion a Sgiliau
ACDGI	Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon
ADCDF	Adran ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
AET	Adran Economi a Thrafnidiaeth
ASA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
AU	Addysg Uwch
AUC	Addysg Uwch Cymru
AUCB	Addysg Uwch Cymru Brwsel
AWEMA	Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
AYAU	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
BP	Buddsoddwyr mewn Pobl
CALl	Cyfwerth ag Amser-llawn
CAUC	Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru
CCA	Cyngor Cyllido Addysg Uwch ac Addysg Bellach yr Alban
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CCAULl	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad
CGE	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
CRC	Consortiwm Rhyngwladol Cymru
EFQM	Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Ansawdd
FfCCC	Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
GO Wales	Cyfleoedd i Raddedigion Cymru
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
HEBCIS	Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned
HERO	Cyfleoedd Addysg Uwch ac Ymchwil yn y DU
HMT	Trysorlys ei Mawrhydi
JISC	Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth
OSI	Swyddfa Gwyddoniaeth ac Arloesi
PA	Prifysgol Agored
PC	Prifysgol Cymru

RCUK	Cynghorau Ymchwil y DU
SABau	Sefydliadau Addysg Bellach
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SAUau	Sefydliadau Addysg Uwch
SRIF	Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol
STWFW	Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru
TDA	Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu i Ysgolion
UKHEAC	Pwyllgor Ymgynghorol Addysg Gofal Iechyd y DU
UUK	Prifysgolion y DU
W:AVE	Cymru: Economi yn Ffynnu
WCVA	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
WORD	Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
YoA	Ymchwil o Ansawdd
YMA	Ymarferiad Asesu Ymchwil